

Rhif: WG29328



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori

Cynllun tlodi tanwydd a arweinir gan alw yn y dyfodol i olynu *Cartrefi  
Clyd Llywodraeth Cymru - Nyth*

Dyddiad cyhoeddi: 27 Gorffennaf 2016  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Hydref 2016

## Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn rhanddeiliaid ar ddyfodol cynllun tiodi newydd a arweinir gan alw i olynu cynllun *Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru - Nyth*.

## Sut i ymateb

Cwblhewch yr holiadur ymgynghori ar ddiwedd y ddogfen hon a'i anfon i'r cyfeiriad e-bost isod. Neu, os nad ydych am ddefnyddio'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, anfonwch eich sylwadau ar ffurf ysgrifenedig at:

Paul Moyle  
Cangen Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost:

[FuelPovertyandEnergyEfficiency@wales.gsi.gov.uk](mailto:FuelPovertyandEnergyEfficiency@wales.gsi.gov.uk)

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Cynhyrchu amcangyfrifon o lefelau tiodi tanwydd yng Nghymru: 2012-2016 - Sefydliad Ymchwil Adeiladu

<http://gov.wales/statistics-and-research/production-estimated-levels-fuel-poverty/?lang=cy>.

Gwerthusiad o Gynllun Effeithlonrwydd Ynni Nyth - Miller Research (UK) Ltd

<http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-nest-energy-efficiency-scheme/?lang=cy>.

Deall Nodweddion Aelwydydd Incwm Isel sydd yn y Perygl Mwyaf o Fyw mewn Cartrefi Oer - Canolfan Ynni Cynaliadwy

<http://gov.wales/statistics-and-research/understanding-characteristics-low-income-households-risk-living-cold-homes/?lang=cy>.

## Manylion Cysylltu

Am ragor o wybodaeth:

Paul Moyle  
Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost:

[FuelPovertyandEnergyEfficiency@wales.gsi.gov.uk](mailto:FuelPovertyandEnergyEfficiency@wales.gsi.gov.uk)

## Diogelu Data

### **Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Contents

<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>Cefndir</b>	<b>2</b>
Tlodi Tanwydd	2
Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru - Nyth	3
<b>Beth yw'r Dystiolaeth o blaid Newid?</b>	<b>6</b>
Gwerthusiad o Gynllun Effeithlonrwydd Ynni Nyth - Miller Research (UK) Ltd	7
Deall Nodweddion Aelwydydd Incwm Isel sydd yn y Perygl Mwyaf o Fyw mewn Cartrefi Oer - Canolfan Ynni Cynaliadwy (CSE)	8
Gwaith Ychwanegol ar Ddeiliadaeth Eiddo a Sgôr Effeithlonrwydd Ynni	9
<b>Beth rydym yn ei gynnig?</b>	<b>10</b>
Pa gymorth y dylai'r cynllun ei gynnig?	10
Terfynau Gwario ar Fesurau Effeithlonrwydd Ynni fesul Aelwyd	11
Pwy ddylai gael ymuno â'r cynllun newydd?	12
Sut mae ymgeiswyr yn dangos eu bod yn gymwys?	14
Targedu'r Grŵp cymwys	16

## Cyflwyniad

1. Yn unol â *Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000* mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i ddileu tlodi tanwydd, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, ymhob aelwyd yng Nghymru erbyn 2018.
2. Mae tri phrif ffactor sy'n pennu p'un a fydd aelwyd mewn tlodi tanwydd, sef ei incwm, prisiau ynni ac effeithlonrwydd ynni'r cartref.
3. Prin yw pwerau Llywodraeth Cymru i ymdrin ag incwm isel a phrisiau ynni, sy'n golygu ei bod yn anodd dileu tlodi tanwydd. Fodd bynnag, gallwn wneud gwahaniaeth mawr drwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru. Dyma'r ffordd fwyaf cynaliadwy o leihau biliau ynni yn yr hirdymor.
4. Mae ein Strategaeth Tlodi Tanwydd yn nodi'r camau a gymerwn i leihau nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Cam allweddol yn y Strategaeth yw cyflwyno cynllun tlodi tanwydd i Gymru gyfan a arweinir gan alw sy'n targedu'r deiliaid tai hynny sydd â'r angen mwyaf ac sy'n byw yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon o ran ynni, a ategir gan fuddsoddiad yn seiliedig ar ardal.
5. Darperir cymorth a arweinir gan alw i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi incwm isel ledled Cymru drwy gynllun Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru - Nyth. Darperir cymorth i wella cartrefi yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru drwy gynlluniau Arbed Cartrefi Clyd.
6. Bydd Nyth ac Arbed yn parhau yn 2016/17. Fodd bynnag, bydd contract rheoli cynllun Nyth yn dod i ben ar 31 Awst 2017.
7. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig wedi cytuno i barhau i fuddsoddi mewn cynllun a arweinir gan alw o fis Medi 2017 a diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn rhanddeiliaid ar y broses o ddylunio a chyflwyno cynllun newydd.

## Cefndir

### ***Tlodi Tanwydd***

8. Yng Nghymru, ystyrir bod aelwyd mewn tlodi tanwydd os byddai angen iddo wario mwy na 10 y cant o'i incwm (gan gynnwys Budd-dal Tai, Cymorth Incwm ar gyfer Llog ar Forgais neu fudd-daliadau'r dreth gyngor) ar yr holl danwydd a ddefnyddir gan yr aelwyd, er mwyn cynnal digon o wres. Ystyrir bod aelwydydd sy'n gorfod gwario mwy nag 20% mewn tlodi tanwydd difrifol.
9. Mae'r ystadegau mwyaf diweddar gan Lywodraeth Cymru ar dlodi tanwydd yng Nghymru yn amcangyfrifon a fodelwyd ar gyfer 2012-16 a luniwyd gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE). Cyhoeddwyd adroddiad BRE, sef "The Production of Estimated Levels of Fuel Poverty in Wales: 2012-2016", ar 11 Gorffennaf 2016. Rhydd yr adroddiad amcangyfrifon o dlodi tanwydd a thlodi tanwydd difrifol ar bob aelwyd, tlodi tanwydd ar aelwydydd agored i niwed a thlodi tanwydd mewn tai cymdeithasol rhwng 2012 a 2016. Mae'r ymchwil hefyd yn amcangyfrif effaith gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni ar lefelau o dlodi tanwydd. Gellir gweld copi o'r adroddiad yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/production-estimated-levels-fuel-poverty/?lang=en>.

10. Dengys y tabl isod yr amcangyfrifon a fodelwyd o dlodi tanwydd yng Nghymru yn 2016.

### Nifer amcangyfrifedig o aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn 2016

Lefelau Tlodi Tanwydd, 2016	Heb fesurau effeithlonrwydd ynni (newidiadau i incwm a phris tanwydd yn unig)		Â mesurau effeithlonrwydd ynni	
	Nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd (000au)	% yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd	Nifer yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd (000au)	% yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd
Tlodi tanwydd, pob aelwyd	371	29	291	23
Tlodi tanwydd difrifol	60	5	43	3
Tlodi tanwydd mewn grŵp agored i niwed	334	31	261	24
Tlodi tanwydd mewn tai cymdeithasol	77	34	61	27

11. Dengys y tabl fod gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni wedi arwain at ostwng lefelau amcangyfrifedig o:

- dlodi tanwydd ar bob aelwyd tua 80,000 o aelwydydd (6 phwynt canran)
- tlodi tanwydd difrifol ar bob aelwyd tua 17,000 o aelwydydd (2 bwynt canran)
- tlodi tanwydd ar aelwydydd agored i niwed tua 73,000 o aelwydydd (7 pwynt canran)
- tlodi tanwydd mewn tai cymdeithasol tua 16,000 o aelwydydd (7 pwynt canran)

### Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru - Nyth


12. Mae cynllun Nyth bellach yn ei chweched flwyddyn. Mae'n galluogi pobl yng Nghymru i gael gfael ar amrywiaeth o gyngor a chymorth gan gynnwys arbed ynni, rheoli arian, tariffau tanwydd, ac atgyfeiriadau am Wiriadau Hawl i Fudd-daliadau (BEC) ac ad-daliadau Gostyngiad Cartrefi Clyd (WHD).

13. Yn ogystal â chyngor, mae NEST yn cynnig pecyn o welliannau ynni am ddim i aelwydydd sy'n bodloni'r holl feini prawf canlynol:

- maent yn cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd cymwys (MTB)
- maent yn byw mewn cartref eiddo preifat neu rentu preifat
- maent yn byw mewn cartref nad yw'n effeithlon o ran ynni (sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) o E, F neu G).

14. Ar hyn o bryd mae'r budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd cymwys yn cynnwys:
- Credyd Treth Plant: mae'r arian sy'n dod i mewn o dan £16,105 y flwyddyn
  - Budd-dal y Dreth Gyngor (nid yw gostyngiadau a disgowntiau yn gymwys ar eu pen eu hunain)
  - Budd-dal Tai
  - Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm
  - Cymhorthdal Incwm
  - Credyd Pensiwn
  - Credyd Cynhwysol
  - Credyd Treth Gwaith: mae'r arian sy'n dod i mewn o dan £16,105 y flwyddyn.
15. Mae Nyth hefyd yn cynnig talebau grant rhannol o £125 am inswleiddio atig a £150 am inswleiddio wal geudod i aelwydydd agored i niwed nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd ar gyfer pecyn o fesurau. Ystyrir bod aelwyd agored i niwed yn un sy'n cynnwys rhywun sy'n:
- 60 oed neu drosodd
  - anabl neu â salwch cronig
  - beichiog
  - plentyn neu berson ifanc o dan 25 oed.
16. Yn hanesyddol bu'r defnydd o'r grantiau hyn yn isel iawn, gyda llai na 50 o dalebau yn cael eu hawlio yn ystod pum mlynedd cyntaf y cynllun.
17. Caiff cynllun Nyth ei reoli gan Nwy Prydain, gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn is-gontractwr. Mae'r cynllun yn gweithredu gwasanaeth cyngor a derbyn galwadau pen-blaen, a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, a bydd yn cynnal asesiad cychwynnol o gymhwysedd y sawl sy'n ffonio am becyn o welliannau ynni yn y cartref. Pan fydd y sawl sy'n ffonio yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd ganddynt, bydd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn atgyfeirio'r cais i Nwy Prydain am asesiad o'r cartref cyfan. Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni hefyd yn gweithredu gwasanaeth cyngor y cynllun, sy'n darparu cyngor uniongyrchol ac yn atgyfeirio unigolion i sefydliadau partner am gyngor a chymorth.

**Ffigur 1: Trosolwg o Gynllun Nyth**



18. Pan nodir y gall fod aelwyd yn gymwys i gael gwelliannau ynni i'r cartref, bydd un o aseswyr cwbl gymwysedig Nyth yn ymweld â chartref y cwsmer er mwyn cadarnhau ei fod yn gymwys, ac i gwblhau asesiad o'r cartref cyfan er mwyn nodi'r mesurau mwyaf priodol a chost-effeithiol ar gyfer yr eiddo a'r cwsmer.
19. Cynllunnir pecynnau gwella ynni cartref Nyth ar gyfer eiddo unigol felly nid oes pecyn safonol o fesurau. Gallai'r pecyn mwyaf priodol a chost-effeithiol a gynigir gynnwys boeler newydd, system gwres canolog, inswleiddio atig neu wal geudod, a gall rhai gynnwys technolegau mwy newydd fel pypmiau gwres ffynhonnell aer ac inswleiddio wal allanol.
20. Systemau gwres canolog sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r gwaith a wneir gan gynllun Nyth. Mae'r rhain yn cynnwys sawl mesur e.e. boeler, rheiddiaduron, thermostatau ystafell, falfiau rheiddiadur thermostatig a gwaith pibell, lle bo angen.
21. Er mwyn sicrhau bod mesurau cost-effeithiol yn cael eu blaenoriaethu, ceir terfynau gwario ar gyfer gwelliannau ym mhob annedd ar hyn o bryd. Y rhain yw £8,000 ar gyfer eiddo â chyflenwad nwy a £12,000 ar gyfer eiddo heb gyflenwad nwy fel bod yr eiddo yn cyflawni sgôr C EPC fan bellaf, lle bo'n briodol ac yn gost-effeithiol i wneud hynny. Mae'r terfyn uwch ar gyfer eiddo nad yw ar y grid yn adlewyrchu cost uchel y ffynonellau gwres sydd ar gael ar gyfer y fath eiddo.
22. Ar hyn o bryd derbynnir ceisiadau gan berchennog-ddeiliaid a thenantiaid mewn eiddo rhentu preifat. Fodd bynnag, yn achos eiddo rhentu preifat, os bydd y cynllun eisoes wedi gwella tri eiddo sy'n rhan o bortffolio'r un landlord, caiff unrhyw geisiadau dilynol ar gyfer y portffolio hwnnw eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru am benderfyniad.



23. O dan y contract presennol, mae Nyth yn anelu at roi cyngor a chymorth i hyd at 15,000 o aelwydydd bob blwyddyn, gyda thua 4,000 o'r aelwydydd hyn yn cael gwelliannau ynni i'r cartref. Yn ystod ei bum mlynedd cyntaf, darparodd Nyth gyngor i fwy nag 85,000 o aelwydydd, gyda mwy na 23,700 o'r rhain yn cael pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni i'r cartref. Rhagorodd y ffigurau hyn ar y targedau gwreiddiol.
24. Mae Nyth wedi galluogi mwy na 1,200 o aelwydydd i hawlio budd-daliadau newydd neu ychwanegol, sy'n werth mwy na £1,900 o incwm ychwanegol fesul aelwyd y flwyddyn ar gyfartaledd, ac mae wedi galluogi mwy na 1,000 o aelwydydd i gael ad-daliad Gostyngiad Cartrefi Clyd ar eu bil trydan. Mae hyn yn cyfateb i arbed cyfanswm o fwy na £140,000 ar filiau trydan yng Nghymru.
25. Un o amcanion pwysig cynllun a arweinir gan alw yw galluogi cyllid ychwanegol i ddod i mewn i Gymru drwy rwymedigaethau cyflenwyr ynni (ECO). Yn y pum mlynedd diwethaf, mae Nyth wedi llwyddo i sicrhau mwy na £10 miliwn drwy ECO, gan alluogi mwy o aelwydydd yng Nghymru i gael gwelliannau effeithlonrwydd ynni.
26. Mae Nyth yn gynllun llwyddiannus ac mae Llywodraeth Cymru am adeiladu ar y llwyddiant hwnnw. Fodd bynnag, mae tystiolaeth y gallai newidiadau i'r cynllun presennol wella'r gwaith o dargedu a chynorthwyo'r aelwydydd hynny â'r angen mwyaf ac sy'n wynebu'r risg fwyaf rhag byw mewn cartref oer. Cyflwynir y dystiolaeth o blaid newid yn yr adran isod.

### **Beth yw'r Dystiolaeth o blaid Newid?**

27. Wrth benderfynu p'un a ddylai Llywodraeth Cymru barhau i gynnig cynllun tloidi tanwydd a arweinir gan alw, rydym wedi ystyried canlyniad ymchwil BRE ar y lefelau amcangyfrifedig o dlodi tanwydd yng Nghymru. Er bod yr ymchwil yn dangos bod y nifer amcangyfrifedig o aelwydydd sydd mewn tloidi tanwydd wedi lleihau ers 2012, amcangyfrifir bod tua 23 y cant o'r aelwydydd yng Nghymru mewn tloidi tanwydd yn 2016. Mae hyn yn cefnogi'r achos dros barhau i weithredu ar dlodi tanwydd, gyda chymorth yn targedu aelwydydd incwm isel sy'n wynebu'r risg fwyaf o fyw mewn cartrefi oer.
28. Mae ymchwil BRE yn tanlinellu effaith gadarnhaol gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni cartrefi ar lefelau o dlodi tanwydd. Dengys fod cynllun ar gyfer Cymru gyfan sy'n cefnogi aelwydydd incwm isel â darpariaethau o'r fath, ynghyd â phecyn cynhwysfawr o gyngor a chymorth arall, yn ffordd hynod effeithiol o ostwng lefelau o dlodi tanwydd ymhellach.
29. Wrth ystyried sut y dylid cyflwyno cynllun yn y dyfodol, a pha aelwydydd a ddylai gael cymorth gyntaf, rydym wedi ystyried canfyddiadau'r gwerthusiad annibynnol o gynllun Nyth, a gynhaliwyd gan Miller Research (UK) Ltd, yn llawn. Rydym hefyd wedi ystyried darn arall o ymchwil a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ynni Cynaliadwy (CSE), a edrychodd ar nodweddion aelwydydd sy'n wynebu'r risg fwyaf o fod yn oer. Nodir prif ganfyddiadau'r adroddiadau hyn isod.

## **Gwerthusiad o Gynllun Effeithlonrwydd Ynni Nyth - Miller Research (UK) Ltd**

30. Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad annibynnol o gynllun Nyth er mwyn asesu p'un a oedd wedi cyflawni ei amcanion ai peidio. Ystyriodd y gwerthusiad i ba raddau roedd y cynllun wedi cyrraedd aelwydydd â'r angen mwyaf, arbed ynni i aelwydydd a sicrhau gwerth am arian. Cafodd yr adroddiad llawn ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2015. Mae'r prif adroddiad a Chrynodeb Gweithredol ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-nest-energy-efficiency-scheme/?lang=cy>.
31. Roedd canfyddiadau'r gwerthusiad yn hynod gadarnhaol, gan gynnwys mewn perthynas â rheoli'r cynllun a phrofiad cwsmeriaid, i ba raddau y cyrhaeddwyd yr aelwydydd mwyaf agored i niwed, a'r buddiannau i aelwydydd a gafodd gyngor a mesurau gwella. Hefyd, roedd y cynllun wedi sicrhau buddiannau economaidd ehangach o ran cynorthwyo BBaChau a chreu swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddiant.
32. Effeithiau mwyaf arwyddocaol y cynllun, a'r rhai a nodwyd yn eang, fu mwy o hyder ynghylch gwresogi cartrefi a llai o bryder am hynny. Deilliodd hyn o fesurau effeithlonrwydd ynni a chyngor i aelwydydd. Yn achos rhai aelwydydd, roedd y buddiannau'n ymestyn i welliannau iechyd meddyliol a chorfforol. Tra gwelodd rhai eu biliau ynni yn gostwng, yn achos eraill, mae systemau newydd a gwell effeithlonrwydd wedi eu galluogi i ddefnyddio gwres a dŵr poeth na allent fforddio ei wneud gynt, a thrwy hynny mae eu hamodau byw wedi gwella yn y cartref.
33. Hefyd cafwyd cryn gefnogaeth i barhau â Nyth neu gynllun tebyg gan bawb yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r gwerthusiad.
34. Fodd bynnag, er bod y canfyddiadau'n gadarnhaol iawn, nododd yr adroddiad feysydd i'w gwella ymhellach hefyd. Maent fel a ganlyn:
- Mae angen gwneud y broses gwneud cais yn fwy hygyrch i rai grwpiau, fel y rheini ag anawsterau gweld a chlywed, anabledau neu broblemau iechyd meddwl.
  - Mae'r meini prawf cymhwysedd presennol yn peri risg o eithrio rhai aelwydydd sydd yr un mor anghenus.
  - Dim ond un mesur y mae'r rhan fwyaf o aelwydydd wedi'i gael er gwaethaf y pecyn cartref cyfan a fwriadwyd.
  - Ni fu cyngor yn unig mor effeithiol â mesurau effeithlonrwydd ynni o ran cyflawni canlyniadau'n ymwneud â thlodi tanwydd.
  - Gellid gwella'r gwaith o farchnata a thargedu'r cynllun ar gyfer grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol.
35. Ystyriwyd sawl un o'r gwelliannau hyn eisoes wrth wneud newidiadau i'r cynllun presennol o 2015/16. Mae'r camau a gymerwyd yn cynnwys y canlynol:
- Gwnaed mwy o waith wedi'i dargedu i ddileu'r rhwystrau mynediad i bobl nad oes ganddynt sianelau cyfathrebu prif ffrwd. Canolbwyntiodd hyn ar ymgysylltu wedi'i dargedu drwy sefydliadau partner penodol a defnyddio gwybodaeth mewn fformatau hawdd eu darllen, braille, sain, print bras a digidol.

- Gwnaed gwaith i ymgysylltu â grwpiau cymunedol mewn ardaloedd gwledig a grwpiau eraill gan gynnwys cymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.
- Datblygwyd cydberthnasau â Byrddau Iechyd Lleol a phartneriaid yn y sector iechyd.

### **Deall Nodweddion Aelwydydd Incwm Isel sydd yn y Perygl Mwyaf o Fyw mewn Cartrefi Oer - Canolfan Ynni Cynaliadwy (CSE)**

36. Yn 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil annibynnol er mwyn helpu i lywio'r gwaith o dargedu unrhyw gynllun effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd a arweinir gan alw yn y dyfodol. Anelodd yr ymchwil at ystyried y canlynol:

- pa bobl incwm isel a fyddai'n llawer llai agored i niwed yn sgil gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni eu cartref
- yr opsiynau ar gyfer targedu'r bobl neu'r grwpiau hyn yn effeithiol
- pa grwpiau o bobl a allai elwa o gynllun o dan wahanol sefyllfaoedd cyllidebol. (Diben hyn oedd llywio blaenoriaethau, penderfyniadau gwerth am arian, a phennu meini prawf cymhwysedd).

37. Cynhaliwyd yr ymchwil gan CSE ac mae ei hadroddiad llawn a chrynodeb gweithredol ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/understanding-characteristics-low-income-households-risk-living-cold-homes/?lang=cy>.

38. Nodir prif argymhellion yr ymchwil isod:

- **Grŵp Targed** - dylai unrhyw gynllun yn y dyfodol dargedu aelwydydd ag incwm cymharol isel ac o leiaf un o'r nodweddion ychwanegol canlynol o ran bod yn agored i niwed:
  - Oedolion hŷn (pobl 65 oed a throsodd).
  - Plant (yn enwedig plant o dan bump oed).
  - Pobl anabl.
  - Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor cyfyngol (pobl â chlefyd anadlol neu glefyd cylchrediad y gwaed a phobl â chyflyrau iechyd meddwl).
- **Diffiniad o 'Incwm Isel'** - Dylid diffinio aelwydydd incwm isel fel y rhai hynny ag incwm cymharol isel h.y. incwm sy'n is na 60% o'r incwm canolrifol yng Nghymru cyn costau tai<sup>1</sup>.
- **Dangos Cymhwysedd** - dylai'r cynllun ddefnyddio cyfuniad o'r opsiynau canlynol sydd, gyda'i gilydd, yn gam ymlaen o'r hyn a wneir ar hyn o bryd:
  - Defnyddio'r ffaith y ceir budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd i adeiladu ar systemau sefydledig presennol er mwyn galluogi aelwydydd i ddangos eu bod yn gymwys ar gyfer y cynllun.
  - Defnyddio rhyw elfen o hunangymhwyso sy'n cynnwys atgyfeiriad i'r cynllun gan drydydd parti ar gyfer aelwydydd lle mae'n anodd dangos tystiolaeth o gymhwysedd.

<sup>1</sup> Dim ond gwybodaeth am lefelau incwm, a fydd ar gael mewn llythyr prawf budd-daliadau fel arfer, sydd ei hangen er mwyn pennu statws incwm isel drwy'r dangosydd 'cyn costau tai' (BHC). Bydd angen gwybodaeth ychwanegol am gostau tai, y gall fod yn anos eu profi, yn llai dibynadwy a gwneud y broses yn fwy cymhleth, er mwyn cyfrifo 'ar ôl costau tai' (AHC).

- Defnyddio system atgyfeirio gan drydydd parti a gymeradwywyd ymlaen llaw sy'n ei gwneud yn bosibl i gynnwys y rheini ag incwm cymharol isel a rhai cyflyrau iechyd ond nad ydynt yn cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.
- **Budd-daliadau sy'n dibynnu ar Brawf Modd Cymwys** - er mwyn canolbwyntio ar aelwydydd agored i niwed incwm isel, dylai'r budd-daliadau canlynol (a meini prawf cymhwys ychwanegol, lle bo'n berthnasol) gael eu defnyddio er mwyn i aelwydydd ddangos eu bod yn gymwys:
  - Credyd Pensiwn (oedolion incwm isel, oedran pensiwn)
  - Credyd Treth Plant (aelwydydd incwm isel â phlant)
  - Lwfans Ceisio Gwaith sy'n gysylltiedig ag incwm a phlant dibynnol (e.e. cael Budd-dal Plant)
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (a phob iteriad blaenorol ohono, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i Fudd-dal Anuallogrwydd)
  - Cymhorthdal Incwm a delir oherwydd salwch neu anabledd
  - Lwfans Anabledd Difrifol (SDA)
  - Credyd Cynhwysol.
- **Terfynau Gwario** - Dylai terfynau gwario barhau i fod yn weithredol a dylent fod yn uwch ar gyfer eiddo â sgôr SAP is, gan olygu y gall adnodd mwy yn gymesur ganolbwyntio ar wella'r cartrefi oeraf neu fwyaf aneffeithlon a feddiannir gan aelwydydd incwm isel â nodweddion agored i niwed ychwanegol.
- **Iechyd Meddwl** - Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn pennu arfer gorau a ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â phobl â chyflyrau iechyd meddwl a'u targedu.
- **Hyrwyddo'r Cynllun** - Er mwyn sicrhau lefel foddhaol o ymgysylltu â phobl agored i niwed, dylid cynnwys ystod eang o asiantaethau a rhwydweithiau yn y gwaith o hyrwyddo unrhyw gynllun newydd. Dylai'r cynllun hefyd wneud ymdrech benodol i recriwtio asiantaethau atgyfeirio trydydd parti sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig.

### ***Gwaith Ychwanegol ar Ddeiliadaeth Eiddo a Sgôr Effeithlonrwydd Ynni***

39. O dan feini prawf cymhwysedd presennol cynllun Nyth, mae aelwydydd perchennog-ddeiliaid a rhentu preifat yn gymwys i gael pecyn o fesurau effeithlonrwydd ynni. Fodd bynnag, gwnaethom ofyn i CSE wneud peth gwaith ychwanegol gan edrych yn bennaf ar effaith dileu'r sector rhentu preifat ar y meini prawf cymhwysedd sy'n weddill. Hefyd gofynnwyd i CSE ystyried effaith ymestyn cymhwysedd i gynnwys eiddo â sgôr D EPC, ar y cyd â'r uchod.
40. Caiff canfyddiadau'r gwaith ychwanegol hwn ei ddefnyddio i ddatblygu meini prawf a therfynau gwario fesul teulu y cynllun newydd ymhellach.
41. Efallai y bydd angen dod o hyd i ffyrdd amgen o annog buddsoddiad mewn mesurau effeithlonrwydd ynni yn y sector rhentu preifat. Gallai'r rhain gynnwys benthyciadau ad-daladwy cost isel a gynigir drwy wahanol fentrau Llywodraeth Cymru at ddibenion eraill, er enghraifft y Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi Cenedlaethol £10m, 15 mlynedd, a gyflawnir drwy awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r cynllun yn cynnig benthyciadau byrdymor i dymor canolig i berchenogion eiddo sydd

islaw'r safon sy'n bodloni meini prawf fforddiadwyedd ac y mae ffynonellau eraill o gyllid yn gyfyngedig iddynt. Gan fod benthyciadau yn cael eu had-dalu i'r awdurdod lleol, gall y cyllid gael ei ailgylchu fel bod modd ei weithredu am 15 mlynedd.

42. Byddwn yn anelu at sicrhau bod unrhyw opsiwn amgen o'r fath yn addas i annog landlordiaid i ariannu mesurau effeithlonrwydd ynni yn y sector rhentu preifat. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod benthyciadau ar gael yn gyson ledled Cymru a'u bod yn fforddiadwy.

### **Beth rydym yn ei gynnig?**

43. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu ein cynigion ar gyfer cynllun newydd a arweinir gan alw, a ddilynir gan gwestiynau sy'n ceisio barn rhanddeiliad ar ein cynigion. Hefyd caiff y cwestiynau hyn eu crynhoi yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon.

### **Pa gymorth y dylai'r cynllun ei gynnig?**

44. Cynigiwn y dylai'r cynllun newydd a arweinir gan alw ddarparu cymorth sy'n cynnwys y ddwy elfen ganlynol:
- Gwasanaeth pen-blaen sy'n rhoi **cyngor** i aelwydydd ar ffyrdd o arbed arian ar ynni a dŵr, sut i newid i dariffau ynni a dŵr gwell, a sut i reoli arian a ategir gan atgyfeiriadau am Wiriadau Hawl i Fudd-daliadau ac ad-daliadau Gostyngiad Cartrefi Clyd.
  - **Mesurau effeithlonrwydd ynni a chyngor yn y cartref** am ddim ar gyfer aelwydydd cymwys. Gallai cyngor yn y cartref gynnwys 'dal llaw' mewn meysydd fel newid ynni a chyngor ar sut i gael y budd mwyaf o'r mesurau a gyflwynir.
45. Cynigiwn roi'r gorau i ddarparu Grantiau Rhannol yn sgil y defnydd isel ohonynt ac oherwydd ein newidiadau arfaethedig i feini prawf cymhwysedd ar gyfer gwelliannau ynni yn y cartref am ddim.

### **Cwestiwn 1**

A) Ydych chi'n cytuno â'r cymorth arfaethedig a gynnigir gan y cynllun newydd?

B) Ydych chi'n cytuno y dylai cyngor yn y cartref gael ei gynnig i'r sawl sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, lle bo'n briodol? Pa fath o gyngor yn y cartref a fyddai orau a phwy sydd yn y sefyllfa orau i roi cyngor o'r fath? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb.

### **Gweithredu ar sail Cartref Cyfan**

46. Dangosodd y gwerthusiad o gynllun Nyth fod cefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid yn gyffredinol i weithredu ar sail cartref cyfan, lle mae asesydd ynni cymwysedig yn argymhell y mesurau effeithlonrwydd ynni mwyaf priodol a chost-effeithiol er mwyn gwella eiddo penodol. Cynigiwn barhau i weithredu ar sail cartref cyfan a blaenoriaethu ein cyllid ar gyfer cyflwyno'r mesurau sydd fwyaf priodol a chost-effeithiol i wella sgôr ynni eiddo a gostwng biliau ynni aelwydydd.

**Cwestiwn 2** - Ydych chi'n cytuno y dylai'r cynllun newydd barhau i weithredu ar sail cartref cyfan o ran cyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni? Os nad ydych, sut y byddech yn awgrymu y dylai weithredu? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb.

### **Terfynau Gwario ar Fesurau Effeithlonrwydd Ynni fesul Aelwyd**

47. Er mwyn sicrhau bod y mesurau mwyaf cost-effeithiol yn cael eu blaenoriaethu ac er mwyn i gynifer o aelwydydd incwm isel â phosibl elwa, mae'r cynllun presennol yn cynnwys terfynau gwario ym mhob annedd o £8,000 ar gyfer eiddo â chyflenwad nwy a £12,000 ar gyfer eiddo heb gyflenwad nwy. Pennwyd terfyn uwch ar gyfer eiddo heb gyflenwad nwy er mwyn cydnabod y costau ychwanegol yr eir iddynt i wella cartrefi gwledig sydd heb gyflenwad nwy.
48. Mae terfynau gwario yn amodol ar argymell gwelliannau priodol a chost-effeithiol i sicrhau bod eiddo yn cyflawni sgôr ynni o SAP 69 (sy'n cyfateb i sgôr C EPC) fan bellaf lle bo modd.
49. Ystyriwyd terfynau gwario wrth werthuso cynllun Nyth ac yn adroddiad CSE. Tynnodd adroddiad CSE sylw at y ffaith bod terfynau gwario ym mhob annedd yn helpu i sicrhau bod y mesurau mwyaf cost-effeithiol ac addas yn cael eu cyflwyno, tra'n fodd i gyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni llai confensiynol, lle bo angen gwneud hynny. Argymhellodd yr adroddiad y dylai mwy o adnodd ganolbwyntio ar wella'r cartrefi oeraf neu fwyaf aneffeithlon (sgorau F ac G EPC) yn amodol ar y meini prawf cymhwysedd. Bydd gostwng y terfyn ar gyfer anheddau mwy effeithlon yn helpu i sicrhau nad yw'r fath anheddau yn gwneud defnydd anghymesur o'r cyllid sydd ar gael. Byddai hefyd yn rhoi cyfrif am y ffaith mai'r eiddo lleiaf effeithlon sydd angen y buddsoddiad mwyaf er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon effeithlon. Dengys y tabl isod y terfynau gwario a ddefnyddiwyd at ddibenion modelu yn ymchwil CSE.

### **Terfynau gwario uchaf fesul band effeithlonrwydd ynni a ddefnyddiwyd gan CSE o dan lefelau gwahanol o gyllid blynyddol y cynllun**

Band SAP	Gwariant blynyddol o £10m/£25m/£50m	Gwariant blynyddol o £100m	Gwariant blynyddol o £10m/£25m/£50m	Gwariant blynyddol o £100m
	Gwres nwy drwy brif gyflenwad		Gwres nad yw drwy brif gyflenwad nwy	
<b>D</b>	dd/g	£4,000	dd/g	£8,000
<b>E</b>	£4,000	£4,000	£8,000	£8,000
<b>F,G</b>	£5,000	£5,000	£12,000	£12,000

50. Cynigiwn barhau i weithredu terfyn gwario fesul eiddo, gyda therfynau uwch ar gyfer eiddo heb gyflenwad nwy er mwyn adlewyrchu cost uwch gwelliannau. Ystyriwn y dylid cyflwyno terfynau gwario gwahanol yn seiliedig ar sgôr SAP gychwynnol eiddo, gyda therfynau uwch ar gyfer eiddo â'r sgorau SAP isaf (y mwyaf aneffeithlon o ran ynni). Byddwn yn gwneud rhagor o waith fel rhan o asesiad effaith o wahanol derfynau gwario, er mwyn llywio ein penderfyniad.

### Cwestiwn 3

**A)** Ydych chi'n cytuno y dylai mesurau effeithlonrwydd ynni barhau i fod yn destun terfyn gwario fesul aelwyd? Os nad ydych yn cytuno, sut y dylem, yn eich barn chi, gydbwysu'r gwaith o gefnogi aelwydydd unigol â gwelliannau cost uchel â sicrhau bod y cynllun yn elwa cynifer o aelwydydd incwm isel â phosibl, o fewn y cyllidebau sydd ar gael? Rhwch dystiolaeth i ategu eich ateb.

**B)** A ddylai terfynau gwario fod yn gymesur ag effeithlonrwydd ynni'r eiddo? Os felly, pa derfynau a ddylai fod yn gymwys felly i eiddo â chyflenwad nwy a heb gyflenwad nwy? Rhwch dystiolaeth i ategu eich ateb.

### *Pwy sy'n gymwys am y cynllun newydd?*

51. Mae adroddiad CSE yn ystyried gwahanol senarios o ran cyllideb flynyddol sy'n cwmpasu gwahanol lefelau o fod yn agored i niwed. O fewn y gyllideb sydd ar gael, bydd yn bwysig sicrhau, yn ystod oes y cynllun, fod mesurau yn cael eu gweithredu'n gytbwys ar yr aelwydydd hynny â'r angen mwyaf. Felly, mae angen i'r meini prawf cymhwysedd gael eu pennu'n ofalus er mwyn osgoi gordddefnydd, rhestrau aros, neu gau'r cynllun yn ystod y flwyddyn, neu i'r gwrthwyneb, ddim digon o aelwydydd yn gymwys.
52. Gan ystyried yr argymhellion yn adroddiad CSE, cynigiwn y dylai'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni a chynghor yn y cartref o dan y cynllun newydd fod fel a ganlyn:
- Aelwydydd ag aelodau sydd dros 75 oed neu o dan bump oed ac sy'n cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd cymwys, **neu** aelwydydd ag incwm cymharol isel sydd ag aelod â chlefyd anadlol neu glefyd cylchrediad y gwaed<sup>2</sup>.
  - Aelwydydd sy'n byw mewn cartref eiddo preifat neu rentu preifat a ddefnyddir i helpu pobl ddigartref.
  - Aelwydydd sy'n byw mewn cartref aneffeithlon o ran ynni (sgôr EPC o E, F neu G).
53. Newid allweddol i feini prawf cymhwysedd presennol Nyth yw'r cynnig i ddileu'r sector rhentu preifat. O ystyried bod landlordiaid preifat yn rhedeg busnes i bob pwrpas ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yn codi rhent ar gyfradd y farchnad, ystyriwn mai landlordiaid ddylai fod yn gyfrifol am fesurau effeithlonrwydd ynni yn eu heiddo, yn enwedig gan eu bod yn gallu gwrthbwysu cost rhai gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn erbyn eu bil treth. Fodd bynnag, cydnabyddwn fod y sector rhentu preifat yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o helpu i weithredu deddfwriaeth digartrefedd Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at sicrhau bod unrhyw un sy'n ddigartref neu sy'n cael ei fygwth â hynny yn cael help i ddod o hyd i gartref. Felly, ystyriwn y dylid cynnwys eiddo rhentu preifat lle mae'n cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw.

<sup>2</sup> Mae clefyd anadlol yn cynnwys unrhyw gyflwr sy'n effeithio ar ein pibellau awyr a'n gallu i anadlu (gan gynnwys cyflyrau hirdymor aciwt a chronig) fel clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Mae clefyd cylchrediad y gwaed (neu gardiofasgwlaidd) yn cynnwys pob clefyd sy'n gysylltiedig â'r galon a chylchrediad y gwaed.

54. Yn achos eiddo rhentu preifat nas defnyddir i helpu pobl ddigartref, cynigiwn y dylai landlordiaid preifat ddefnyddio ffynonellau cyllid amgen, ar ffurf benthyciadau ad-daladwy cost isel fel cynllun 'Benthyciadau Gwella Cartrefi' Llywodraeth Cymru, a weinyddir gan awdurdodau lleol.
55. Mae'r meini prawf eraill a nodir uchod yn debyg i'r rhai sy'n gymwys i gynllun presennol Nyth; fodd bynnag maent yn caniatáu ymestyn cymhwysedd i raddau i gynnwys aelwydydd sydd ar incwm cymharol isel ac sydd ag aelod â chlefyd anadlol neu glefyd cylchrediad y gwaed (gweler y diffiniad yn nhroednodyn 2). Yn ôl CSE y cyflyrau hyn sydd fwyaf tebygol o waethygu o fyw mewn cartref oer.
56. Mae ymestyn y meini prawf fel hyn hefyd yn ymdrin â'r pwynt a wnaed gan randdeiliaid wrth werthuso cynllun Nyth, sef na all rhai aelwydydd sydd yr un mor anghenus gael gafael ar gymorth am nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf cymhwyso presennol (e.e. nid ydynt yn cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd cymwys).
57. Fodd bynnag, bydd y meini prawf diwygiedig yn golygu na fydd rhai pobl ar fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd bellach yn gymwys, o ganlyniad i'r gofyniad i aelwydydd gynnwys aelod sydd dros 75 oed neu o dan bump oed. Ystyrir mai'r grwpiau hyn sydd fwyaf agored i niwed yn sgil byw mewn cartref oer. Er enghraifft, nododd adroddiad CSE fod y rheini sydd dros 75 oed yn cyfrif am 78% o farwolaethau ychwanegol yn ystod y gaeaf a bod plant, yn enwedig babanod o dan bump oed, yn treulio mwy o amser na'r cyfartaledd gartref, gan olygu eu bod yn wynebu mwy o risg o effeithiau iechyd niweidiol cartrefi oer.
58. The CSE report predicts that approximately 49,696 households fall within the vulnerability group that would be eligible under the criteria proposed at paragraph 52. However, this is based on both private owned and private rented properties being eligible and does not take account of our proposal that private rented properties will only be eligible if they are used to support homelessness. Further work is being undertaken to understand the impact of this proposal on the number of eligible households and potential options for the remaining eligibility criteria. For example, it may enable the removal of proposed age requirements (over 75 or under 5 years) to maintain an appropriately sized pool of eligible households.

#### *Budd-daliadau sy'n dibynnu ar Brawf Modd Cymwys*

59. Yn sgil canfyddiadau CSE, cynigiwn y dylai'r budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd cymwys ar gyfer y cynllun newydd fod fel a ganlyn:
- **Credyd Pensiwn** (elfen Credyd Gwarantedig), sy'n cwmpasu pobl hŷn ar incwm isel
  - **Credyd Treth Plant** ac ag incwm islaw trothwy penodol, sy'n cynnwys aelwydydd incwm isel â phlant dibynnol
  - **Lwfans Ceisio Gwaith** sy'n seiliedig ar incwm a **Budd-dal Plant**, sy'n cynnwys aelwydydd incwm isel eraill â phlant dibynnol
  - **Lwfans Cyflogaeth a Chymorth** (ESA) sy'n gysylltiedig ag incwm, gan nodi aelwydydd incwm isel â nodwedion agored i niwed ychwanegol
  - Budd-daliadau a ddisodlwyd gan ESA (**Budd-dal Anuallogrwydd**, **Cymhorthdal Incwm** a dalwyd oherwydd salwch neu anabledd, **Lwfans Anabledd Difrifol** (SDA)), sy'n cynnwys rhai pobl anabl ar incwm isel



- **Cymhorthdal Incwm**, lle mae mamau beichiog ar incwm isel, gofalwyr, rhieni unigol â phlentyn o dan bump oed, neu bobl anabl neu bobl â salwch hirdymor i gyd yn gymwys
  - **Credyd Cynhwysol** a wnaiff gyfuno chwe budd-dal presennol yn un: Cymhorthdal Incwm; Lwfans Ceisio Gwaith sy'n gysylltiedig ag incwm; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm; Credyd Treth Plant; Credyd Treth Gwaith; a Budd-dal Tai. Cyflwynir hwn fesul cam.
60. Bydd gan y rhan fwyaf o'r rheini sy'n cael y budd-daliadau hyn lawer o'r nodweddion agored i niwed a nodwyd yn adroddiad CSE ac, yn gyffredinol, byddant ar incwm cymharol isel o gymharu â gweddill poblogaeth Cymru.
61. Mae'r prif wahaniaethau o gymharu â'r budd-daliadau cymwys presennol o dan Nyth fel a ganlyn:
- Mae Budd-dal y Dreth Gyngor, Budd-dal Tai a Chredyd Treth Gwaith wedi cael eu dileu oherwydd, er bod cymhwysedd i gael y budd-daliadau hyn yn dangos incwm isel, nid yw'n dangos unrhyw rai o'r nodweddion agored i niwed ychwanegol a nodwyd yng ngwaith CSE fel y rhai mwyaf agored i niwed.
  - Bydd angen bod ymgeiswyr yn cael Budd-dal Plant a Lwfans Ceisio Gwaith sy'n gysylltiedig ag incwm er mwyn bod yn gymwys. Y rheswm dros hyn yw i sicrhau mai dim ond y rheini â phlant dibynnol sy'n cymhwyso (nodwedd agored i niwed a nodwyd yng ngwaith CSE).
62. Wrth i Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno i gyfuno budd-daliadau presennol, ar ryw bwynt bydd hyn yn golygu y gallai aelwydydd sy'n cael Credyd Treth Gwaith neu Budd-dal Tai ar hyn o bryd ddod yn gymwys unwaith eto am eu bod yn cael Credyd Cynhwysol. Yna, efallai y bydd angen cyflwyno gofynion cymhwysedd ychwanegol ar gyfer y sawl sy'n cael Credyd Cynhwysol, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau i dargedu a blaenoriaethu'r mwyaf agored i niwed.

**Cwestiwn 4** - Ydych chi'n cytuno â'r meini prawf cymhwysedd arfaethedig a'r rhestr o fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd cymwys ar gyfer y cynllun newydd?

Os nad ydych, pa feini prawf y byddech yn eu cynnig? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb. Byddai angen i unrhyw gynnydd amgen ystyried y gofyniad i gynnal nifer briodol o aelwydydd cymwys.

**Cwestiwn 5** - Ydych chi'n cytuno y dylem barhau i gefnogi'r sector rhentu preifat yn achos y rheini y defnyddir eu heiddo i helpu pobl ddigartref, ond y dylai pob landlord preifat arall gael ei annog i wella effeithlonrwydd ynni ei eiddo drwy fenthyciadau ad-daladwy cost isel?

**Sut mae ymgeiswyr yn dangos eu bod yn gymwys?**

63. Aelwydydd cymwys fydd y rheini sy'n cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd penodol neu'r rheini ag incwm cymharol isel ac aelod â chyflwr iechyd cronig. Bydd hefyd angen i'r eiddo fod yn un perchennog-ddeiliad neu'n un rhentu preifat a

ddefnyddir i helpu pobl ddigartref. Mae'r adran hon yn nodi sut y cynigiwn i bob math o aelwyd ddangos ei fod yn gymwys.

### *Deiliadaeth*

64. Ar gyfer eiddo preifat, byddai aelwydydd yn dangos cymhwysedd yn yr un ffordd â Nyth, gan ddarparu dogfennaeth sy'n dangos perchenogaeth a meddiannaeth.
65. Ar gyfer eiddo rhentu preifat a ddefnyddir i helpu pobl ddigartref, disgwylwn i aelwydydd ddangos cymhwysedd drwy brawf o gytundeb ag awdurdod lleol i dderbyn atgyfeiriadau pobl ddigartref a lle gosodwyd pobl yn y llety o dan ddyletswydd statudol y mae'r grant yn gymwys iddi.

### *Budd-daliadau sy'n dibynnu ar Brawf Modd*

66. Byddai aelwydydd sy'n cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd cymwys yn defnyddio'r cynllun newydd yn yr un ffordd â chynllun presennol Nyth. Caiff prawf o hawl i gael budd-dal naill ai ei gadarnhau drwy baru data, lle mae hyn ar gael, neu drwy ddarparu dogfennaeth ategol ar y cam asesu cartref cyfan.

### *Incwm Cymharol Isel â Chyflyrau Iechyd Cronig*

67. Byddai angen i aelwydydd yn y grŵp hwn ddangos incwm cymharol isel a chyflwr iechyd cymwys cyn cael eu hatgyfeirio i'r cynllun. Felly, rydym yn cynnig bod aelwydydd o'r fath yn cael eu hatgyfeirio i reolwr y cynllun drwy **system atgyfeirio trydydd parti** a gymeradwyir ymlaen llaw.

### *System Atgyfeirio Trydydd Parti*

68. Y brif flaenoriaeth gyda'r cynnig hwn yw sicrhau ein bod yn nodi'r sefydliadau trydydd parti hynny y bydd eu gwaith gyda grwpiau agored i niwed yn eu galluogi i ddangos tystiolaeth o incwm isel a chyflwr iechyd. Byddai'r sefydliad trydydd parti yn cadarnhau ei fod wedi dilysu cymhwysedd fel sy'n ofynnol a byddai'n atgyfeirio'r cleient i reolwr y cynllun am gymorth. Ni fyddem yn cynnig unrhyw ddilysu pellach gan reolwr y cynllun.
69. Er y byddem yn dymuno gweld pob sefydliad sy'n gweithio gyda phobl agored i niwed yn ymwneud â'r gwaith o helpu i dargedu aelwydydd cymwys ar gyfer y cynllun, rydym yn cynnig mai dim ond nifer fach o sefydliadau a fydd yn gweithredu fel 'partneriaid atgyfeirio' rhag-gymeradwy.
70. Rydym yn awyddus i sicrhau bod system atgyfeirio trydydd parti yn gweithio'n effeithiol ac nad yw'n atal aelwydydd cymwys rhag gwneud cais i'r cynllun. Felly byddem yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar sut y gallai system atgyfeirio trydydd parti weithio, pa sefydliadau a fyddai'n gwneud y partneriaid atgyfeirio gorau a sut y gallai system atgyfeirio o'r fath gael ei hariannu.

**Cwestiwn 6** - Ydych chi'n cytuno â'r hyn a gynigir o ran dangos bod yr aelwydydd canlynol yn gymwys:

- a) Aelwydydd sy'n cael budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd cymwys ac sydd ag aelod sydd dros 75 oed neu o dan bump oed.
- b) Aelwydydd sydd ar incwm cymharol isel ac sydd ag aelod â chlefyd anadlol neu glefyd cylchrediad y gwaed?

Os nad ydych yn cytuno, sut y byddech yn cynnig y dylai aelwydydd ddangos cymhwysedd? Rhowch dystiolaeth i ategu eich ateb.

### **Cwestiwn 7**

- A) Pa sefydliadau fyddai yn y sefyllfa orau i weithredu fel partneriaid atgyfeirio ar gyfer aelwydydd ar incwm cymharol isel ac sydd ag aelod â chyflwr anadlol neu gyflwr cylchrediad y galon?
- B) Sut y gallai unigolion ddangos bod ganddynt gyflwr iechyd cymwys?
- C) Sut y gallai system atgyfeirio gael ei hariannu yn eich barn chi?

### **Targedu'r Grŵp cymwys**

- 71. O ystyried y newidiadau arfaethedig i'r meini prawf cymhwysedd, yn enwedig cynnwys y rheini â chyflwr anadlol neu gyflwr cylchrediad y gwaed, byddem hefyd yn hoffi clywed barn rhanddeiliaid ar y ffordd orau o dargedu'r grŵp newydd hwn o bobl.

**Cwestiwn 8** - Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer y ffordd orau o dargedu'r rheini â chyflwr anadlol neu gyflwr cylchrediad y gwaed?